

CYNGOR I RIENI AR GWBLHAU'R FFURLFEN GAIS

Cofiwch gadw'r nodiadau hyn er mwyn eu darllen eto. Dylid darllen y nodiadau ar y cyd â'r 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam 2018/2019'.

1. Pam wyf i'n gorfod llenwi ffurflen ddewis?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol roi'r cyfle i chi enwi'r dewis ysgol yr hoffech i'ch plentyn fynd iddi, a rhoi rhesymau dros eich dewis. Mae'r Awdurdod Derbyn perthnasol yn gorfod cynnig lle yn ôl y dewisiadau, hyd at rif derbyn cyhoeddedig pob ysgol (sydd wedi'i gyhoeddi yn 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam'). Sylwer: bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud ei orau glas i sicrhau bod eich plentyn yn mynd i'ch dewis ysgol, serch hynny nid oes gan eich plentyn unrhyw hawl awtomatig i gael ei addysgu yn eich dewis ysgol. Rhaid i rieni nodi nifer o ddewisiadau y nhrefn eich dewis.

2. Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn cwblhau ffurflen ddewis?

Os na fyddwch chi'n cwblhau cais erbyn y dyddiad gofynnol yna efallai na fydd yr awdurdod perthnasol yn gallu cynnig lle i'ch plentyn yn eich dewis ysgol yn ardal Wreccsam (mae hyn yn cynnwys ysgolion eglwys a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) ar gyfer mis Medi 2018.

3. Os byddaf yn gwneud cais am ysgol arall yn hytrach na'r ysgol addas agosaf a fyddaf yn derbyn cludiant am ddim?

Cyfeiriwch at y Polisi Cludiant sydd wedi'i gyhoeddi yn y Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam. Os byddwch yn mynegi dewis ysgol arall ac nid yr ysgol addas agosaf, yna eich cyfrifoldeb chi yw gwneud trefniadau a thalu i'ch plentyn fynd i'r ysgol honno.

4. Mae gennyf blentyn hŷn sydd eisoes yn mynd i'm dewis ysgol – a wyf i'n dal i orfod gwneud cais?

Ydych, rydych chi'n dal i orfod gwneud cais.

5. Os na chaf le yn fy newis ysgol gyntaf, ac nad honno yw fy ysgol uwchradd agosaf, a fyddaf i wedyn yn gallu cael lle yn fy ysgol agosaf?

Os byddwch chi'n dweud mai'ch dewis cyntaf yw ysgol arall ond yr ysgol uwchradd agosaf a bod eich cais yn aflwyddiannus, yna fe roi'r ystyriaeth i'ch hoff ddewis arall / hoff ddewisiadau eraill yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd gan yr awdurdod derbyn ynghylch mwy o ymgeiswyr nag o leoedd ar gael. Mae'r wybodaeth yn y Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam yn dangos faint o leoedd sydd ar gael ym mhob ysgol, a'r niferoedd a ragwelir ar gyfer mis Medi 2017. Dim ond bras amcan yw hyn ac fe allai'r sefyllfa fod yn wahanol yn 2018.

6. Os oes mwy o hoff ddewisiadau nag o leoedd ar gael yn fy newis ysgol, sut fydd y lleoedd yn cael eu dyrannu?

Caiff hoff ddewisiadau ynghylch lleoedd mewn ysgolion cymunedol Awdurdod Lleol eu hystyried ar sail meini prawf 'gormod o geisiadau' yr Awdurdod sydd wedi'u cyhoeddi yn 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam'. Mae'r wybodaeth a roddwch ar eich cais yn bwysig.

Bydd pob cais a dderbynnir gan erbyn dyddiad cau'r Awdurdod Lleol, sef 10 Tachwedd 2017, yn cael eu hystyried ar y cyd a'u hasesu yn unol â meini prawf yr Awdurdod.

Ystyrir **ceisiadau hwyr** gan ddefnyddio'r un meini prawf cyhoeddedig, ond pe digwyddai ysgol fod yn rhy llawn, yna caiff unrhyw geisiadau hwyr eu hystyried **ar ôl** y rhai a dderbyniwyd erbyn dyddiad cau'r Awdurdod Lleol. Golyga hyn efallai y bydd gennyh chi lai o gyfle i gael lle i'ch plentyn yn eich dewis ysgol os ydych chi'n cyflwyno eich cais ar ôl y dyddiad cau.

Os byddwch chi'n dymuno cyflwyno amgylchiadau meddygol a/neu seicolegol i ategu dewis ysgol benodol, yna mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol neu seicolegydd o fewn y cyfnod dyrannu.

Bydd dewisiadau am leoedd mewn ysgolion eglwys a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cael eu hystyried yn ôl meini prawf derbyn cyhoeddedig yr ysgol honno. Mae'r polisiâu derbyn wedi'u cyhoeddi yn y 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wreccsam' ac maent i'w gweld ar-lein ar www.wreccsam.gov.uk trwy ddilyn y ddolen at 'Derbyniadau Ysgolion' a thrwy'r broses ymgeisio ar-lein.

7. Beth allaf i ei wneud os nad wyf yn cael fy newis cyntaf?

Os na chewch chi lle yn eich dewis cyntaf, fe ofynnir i chi enwi dewisiadau eraill. Os bydd hyn yn digwydd byddwch yn dal i fod â hawl i gyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â bodloni eich dewis cyntaf (neu arall). Byddwch yn cyflwyno'r apêl i banel apêl annibynnol. Ni fydd cyflwyno apêl yn effeithio ar unrhyw le ysgol, ail ddewis, a ddyrannwyd i'ch plentyn eisoes. Mae gwybodaeth am apeliadau derbyn i'w cael yn 'Canllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'.

8. Rwyf yn gwneud cais i'r Ysgol Gatholig ac Anglicanaidd a Gynorthwyr yn Wirfoddol (Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff), neu'r Ysgol Sefydledig (Ysgol Maelor, Llannerch Banna), a ddylwn i gwblhau cais ar-lein (neu bapur)?

Dylech, am fod yr Awdurdod Lleol yn casglu'r wybodaeth hon ac yn ei rhoi i'r ysgol honno. Fodd bynnag, nid yr Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn ar ran yr ysgolion hyn, felly mae pob un o'r rhieni sy'n dymuno gwneud cais am le yn Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff neu yn Ysgol Sefydledig Maelor, Llannerch Banna, hefyd yn gorfod cysylltu â'r ysgol honno yn y lle cyntaf, gan y gallai fod yn ofynnol llenwi ffurflen dderbyn arall ar gyfer yr ysgolion hyn.

9. Rwyf yn gwneud cais i ysgol annibynnol neu ysgol mewn awdurdod lleol arall ar gyfer mis Medi 2018 - a ddylwn i barhau i wneud cais ar-lein (neu bapur)?

Dylech. Mae'r Awdurdod Lleol yn casglu'r wybodaeth hon ac yn ei hanfon i'r awdurdod allanol perthnasol. Hyd yn oed os yw eich dewis cyntaf am ysgol y tu allan i Fwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'n hanfodol eich bod hefyd yn defnyddio'r ffurflen hon er mwyn dewis ysgol a gynhelir gan Fwrdeistref Sirol Wrecsam, rhag ofn y bydd eich cais am ysgol annibynnol neu ysgol y tu hwnt i'r Fwrdeistref yn aflwyddiannus. **Rhaid i rieni sicrhau eu bod yn cysylltu â'r awdurdod derbyniadau priodol i ofyn am unrhyw ffurflen gais ychwanegol sy'n angenrheidiol, er mwyn cwblhau'r broses ymgeisio.**

Os yw eich plentyn eisoes wedi cael cynnig lle **pendant** mewn ysgol annibynnol neu ysgol arall sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Lleol, yna rhowch wybod i Swyddog Derbyniadau'r Awdurdod Lleol.

10. Allaf i ddefnyddio cyfeiriad gwahanol, ar wahân i gyfeiriad y cartref, ar gyfer cais fy mhlentyn?

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio'r cyfeiriad a roddir ar eich cais yn erbyn y cofnodion sydd gennym ar gyfer ysgol bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth a thystiolaeth oddi wrthy ch os ydynt yn wahanol.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le mewn ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu ac mae'n amodol bod eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni a'n bod ninnau wedi derbyn eu bod wedi symud yn y cyfamser.

Cynghorir rhieni/gofalwyr y gall lle plentyn mewn ysgol gael ei dynnu yn ei ôl os y daw hi'n amlwg yn y cyfamser fod y wybodaeth a roddwyd ar eu ffurflen gais yn anwir neu'n gamarweiniol. Gall hynny olygu na fydd lle ar gael i'r plentyn yn eu hysgol agosaf bellach. Ni all yr Awdurdod Lleol dderbyn dau gais i un plentyn. Felly, rhaid i rieni gyrraedd cyd-gytundeb neu gael Gorchymyn Llys priodol a chyflwyno cais unigol.

11. Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n symud i fyw ar ôl cyflwyno fy ffurflen gais?

Hysbyswch y Tîm Derbyn os yw cyfeiriad eich plentyn yn newid yn ystod y cyfnod dyrannu lleoedd, sef 13 Tachwedd 2017 hyd at 12 Ionawr 2018, os gwelwch yn dda.

12. I ble rwyf i'n anfon cais cyflawn ac erbyn pryd?

Dychwelwch y ffurflen gyflawn at Swyddog Derbyniadau'r Awdurdod Lleol, Stryt y Lampint, Wrecsam, LL11 1AR erbyn y dyddiad cau, sef 10 Tachwedd 2017.

13. Pryd fyddaf i'n cael gwybod a yw fy mhlentyn wedi cael lle yn fy newis ysgol?

Byddwch yn cael gwybod erbyn 1 Mawrth 2018 a gafodd lle ei ddyrannu i'ch plentyn yn eich dewis ysgol ai peidio.

14. Nid wyf yn deall y trefniadau'n iawn, neu mae gennyf gwestiwn arall – ble allaf i gael rhagor o gyngor?

Mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Derbyn trwy ffonio 01978 298991; neu anfon neges e-bost i Admissions@wrexham.gov.uk; neu alw heibio Galw Wrecsam, 16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam, LL11 1LG.